# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 28 Mai 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, W.F.Griffiths, J.Hale, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips,S.Blewett, C.Davies, T.Davies, A.Evans, C.Furlow-Harris, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, A.Manchipp, N.Pearce, S.Phillips, C.Plowman a/ac S.Rees, C.Furlow-Harris, A.Manchipp, T.Davies, C.Plowman, C.Davies and S.Blewett |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Gyda thristwch mawr dywedodd y Maer wrth y cyngor am farwolaeth y cyn-Gynghorydd Hywel Parry.

Fel arwydd o barch cynhaliodd y Cyngor funud o ddistawrwydd.

## 2. PANEL AELODAU - CAM ADFER CORONAFEIRWS

Gwnaed gwelliant llafar gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol i'r adroddiad a ddosbarthwyd fel a ganlyn:

**Amlder Cyfarfodydd**

Bob 4 wythnos oni chytunir fel arall gan y Panel drwy benderfyniad y *mwyafrif*.

**PENDERFYNWYD:** Bod sefydlu Panel Aelod – Cyfnod Adfer Coronafeirws - yn cael ei gymeradwyo ar y telerau a'r amodau fel y'u cynhwysir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd a'r gwelliant llafar uchod, ac y dylid penodi'r aelodau canlynol iddo:

Cadeirydd: Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd R G Jones

Aelodau'r Cabinet: Y Cyng. E V Latham a'r Cyng. C Clement-Williams

Grŵp Llafur: (5 aelod) Y Cyng. M Harvey, Y Cyng. S M Penry, Y Cyng. S Reynolds, Y Cyng. D Cawsey a'r Cyng. M Protheroe

Grwp Plaid Cymru: (3 aelod) Y Cyng. A Llewelyn, Y Cyng. L Purcell a'r Cyng. J D Morgan

Grŵp Annibynnol: (2 aelod) Y Cyng. S K Hunt a'r Cyng. H C Clarke.

## 3. CYNRYCHIOLAETH CYRFF ALLANOL

**PENDERFYNWYD:** Y dylai'r cyngor nodi bod cyn Gyngor Iechyd Cymunedol Abertawe Bro Morgannwg wedi newid ei enw i Gyngor Iechyd Cymunedol Bae Abertawe ac y byddai'r Cynghorydd Aubrey a'r Cynghorydd Edwards yn cael eu hailbenodi iddo

4. **PENODI PRIF WEITHREDWR**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, gwnaeth y swyddogion canlynol ydatganiadau o fuddiant canlynol, gan adael yr ystafell am weddill y cyfarfod:

Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, Y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol).

**PENDERFYNWYD:** Bod y trefniadau i recriwtio Prif Weithredwr, fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adnoddau Dynol i bennu'r amserlen recriwtio, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb ac Adnoddau Corfforaethol, yn cael eu cymeradwyo.

5. **EITEM FRYS**

Estynnwyd diolch i'r Maer a'r Dirprwy Faer am gytuno i ymestyn eu cyfnod yn y swydd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, diolchwyd i'r gweithlu hefyd am eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau.

**CHAIRPERSON**